OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1057 (Cy. 221)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018

*Gwnaed - - - - 10 Hydref 2018*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 33 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad, yn unol ag adran 94(6) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

**Diwygio Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**

**2.** Yn adran 29(1) (defnyddio deunydd mewn gwaith adfer safle cymeradwy) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) yn warediad deunydd—

(i) sy'n ddeunydd cymwys i gyd, neu

(ii) sy'n uwchbridd i gyd, a".

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

10 Hydref 2018

(**1**) 2017 dccc 3.

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 29(1)(a) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (dccc 3).

Mae'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn galluogi i'r rhyddhad adfer safle gael ei gymhwyso i warediad deunydd sy'n uwchbridd i gyd. Bydd y diwygiad yn cael effaith mewn perthynas â gwarediadau trethadwy a wneir ar [y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym] neu ar ôl hynny.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r asesiad oddi wrth: Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.